# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | Dyddiad: | Dydd Mawrth, 16 Mai 2013 |
| | | Deialu Union: | 01824712575 |
| | | e-bost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** sydd i'w gynnal am **9.30 am, DYDD MERCHER, 22 MAI 2013 yn YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN** ac ryw'n amgáu'r adroddiad(au) canlynol.

**Rhif Agenda** **Eitem**

**7 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL: CYNGOR SIR DDINBYCH** (Tudalennau 3 - 34)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwella Corfforaethol (copi i ddilyn) sy'n cyflwyno gwybodaeth yn ymwneud â'r Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ym mis Mai 2013.

**9.55 a.m. – 10.25 a.m.**

**13 SWYDDOGAETH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL WRTH BENNU'R GYLLIDEB** (Tudalennau 35 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi i ddilyn) i geisio barn y Pwyllgor ynglŷn â'u swyddogaeth wrth bennu'r gyllideb ddiwygiedig.

**12.25 a.m. – 12.50 p.m.**

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithio a Democrataidd

**AELODAETH**

**Cynghorwyr**

Brian Blakeley
Stuart Davies
Peter Duffy
Martyn Holland
Gwyneth Kensler
Jason McLellan
Paul Whitham

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **22 Mai 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cyng Barbara Smith / Alan Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tony Ward** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Gwella Blynyddol: Cyngor Sir Ddinbych** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, a gyflwynir gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) ym Mai 2013. Mae'r adroddiad wedi'i atodi i Atodiad I.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Dyma'r adroddiad rheoleiddio allanol allweddol a derbynnir gan y cyngor bob blwyddyn.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Argymhellir bod Aelodau'n ystyried yr adroddiad ac yn amlygu unrhyw faterion o bryder neu sydd angen eglurhad pellach gan Swyddfa Archwilio Cymru (a fydd yn cael eu cynrychioli yn y cyfarfod).

**4. Manylion am yr adroddiad.**

4.1. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ynghylch pa mor dda mae Cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwelliant a darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, yn ogystal â gwaith a wnaed ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad hwn mewn tair prif ran, sy'n ymdrin, gan bennaf, â darpariaeth a gwerthusiad o wasanaethau Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) mewn perthynas â 2011-12, a'i gynlluniau i wella ar gyfer 2012-13.

4.2. Yn gyffredinol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod: y Cyngor yn gwneud cynnydd da i ddarparu ei raglenni gwella ond bod cwmpas i wella ansawdd rhai mesurau perfformiad a'r dystiolaeth mae'r Cyngor yn ei defnyddio i benderfynu ar ei effeithlonrwydd.

5. Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd eleni. Fodd bynnag, mae’r adroddiad yn nodi’r cynnydd mae’r Cyngor yn ei wneud i fynd i’r afael ag argymhellion a’r cynigion i wella a wnaed mewn adroddiadau blaenorol.

**6. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

6.1. Nid oes angen penderfyniad yn yr adroddiad.

**7. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

7.1. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cost sy’n gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**8. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad.**

8.1 Nid oes angen asesiad effaith ar gydraddoldeb gan na fydd penderfyniad yn deillio o’r adroddiad hwn a fydd yn golygu y bydd unrhyw newid i staff neu’r gymuned.

8.1.

8.2. Felly ni fydd yn cael effaith negyddol anghymesur ar bobl sydd wedi rhannu nodweddion arbennig a warchodir.

**9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

9.1. Cyflwynwyd drafft o’r Adroddiad Gwella Blynyddol i’r Prif Weithredwr, ac fe'i trafodwyd gydag ef, a rhoddwyd adborth cyn y cwblhawyd yr adroddiad. Cyflwynir yr Adroddiad Gwella Blynyddol i’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ym Mehefin 2013 (gan ei fod yn canolbwyntio ar faterion perfformiad) a hefyd i'r Cyngor ym Mehefin 2013 ac mae'n adroddiad allweddol i'r awdurdod.

**10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

10.1. Amherthnasol.

**11. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

11.1. Mae’r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cynnwys yr holl risgiau corfforaethol sylweddol y gall effeithio ar allu'r cyngor i ddarparu gwelliant parhaus, pe baent yn digwydd.


**12. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

12.1. Nid oes angen penderfyniad yn yr adroddiad.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Sir Ddinbych



Cyhoeddwyd: Mai 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 258A2013

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliant, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Gwilym Bury o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth wireddu ei raglen gwella ond mae lle i wella ansawdd rhywfaint o'r dystiolaeth mae'r Cyngor yn ei defnyddio i farnu ei effeithiolrwydd 7

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth sicrhau gwelliant yn ei feysydd â blaenoriaeth 7

Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor yn cefnogi gwaith hunanwerthuso dibynadwy ond mae lle i wella ansawdd rhywfaint o'r dystiolaeth mae'r Cyngor yn ei defnyddio i farnu ei effeithiolrwydd 17

Mae trefniadau'r Cyngor i gefnogi gwelliant yn dda 20

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 23

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych 24

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 26

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ddinbych 28

Atodiad 5
Cynigion ar gyfer gwella 2012-13 29

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflenwi eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a wneir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir yr adroddiad yn dair prif adran, sy'n cwmpasu, gan fwyaf, y ffordd y mae Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) yn cyflenwi ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Yn gyffredinol daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad canlynol: mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth wireddu ei raglen gwella ond mae lle i wella ansawdd rhai o'r mesurau perfformiad a thystiolaeth mae'r Cyngor yn eu defnyddio i farnu ei effeithiolrwydd.

3 Yn rhan gyntaf ein hadroddiad, rydym yn dod i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth sicrhau gwelliant yn ei feysydd â blaenoriaeth:

- mae ei berfformiad yn parhau i wella yn y rhan fwyaf o'r agweddau ar waith y Cyngor i addasu'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â newidiadau demograffig;
- bu cynnydd wrth gefnogi prosiectau adfywio yn y Rhyl ond, mewn cyfnod economaidd heriol, mae'r cynnydd wedi bod yn araf wrth gefnogi twf economaidd ar draws Sir Ddinbych yn gyfan;
- mae Estyn wedi barnu bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau addysg o ansawdd da i blant a phobl ifanc a bod y rhagolygon gwella yn dda;
- mae rhaglen y Cyngor i wella ffyrdd yn gwneud cynnydd ond, yn dilyn y llifogydd yn 2012, bydd ymchwiliad annibynnol yn penderfynu a oes angen camau gweithredu i sicrhau y bydd perygl llifogydd yn y Sir yn cael ei reoli'n briodol yn y dyfodol; ac
- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da gyda'i gamau gweithredu a gynlluniwyd i wella'r ffordd mae'n gweithio.

4 Mae ail ran yr adroddiad yn canfod bod trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor yn cefnogi gwaith hunanwerthuso dibynadwy ond mae lle i wella ansawdd rhywfaint o'r dystiolaeth mae'r Cyngor yn ei defnyddio i farnu ei effeithiolrwydd.

5 Yn olaf, mae trydedd ran yr adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliant. Daethom i'r casgliad bod trefniadau'r Cyngor i gefnogi gwelliant yn dda. Yn benodol:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur;
- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i *Gynllun Iaith Gymraeg*; ac
- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol.

# Argymhellion

6 Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion newydd eleni. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn f'adroddiadau blaenorol. Nodir y cynigion hynny ar gyfer gwella yn fy llythyrau asesiad gwella a anfonwyd at y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae Atodiad 5 yn rhoi mwy o fanylion. Mae'r llythyrau hyn ar gael ar ein gwefan www.wao.gov.uk.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

8 Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

9 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywbeth yn eu cylch a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

11 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Mae’r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth wireddu ei raglen gwella ond mae lle i wella ansawdd rhywfaint o’r dystiolaeth mae’r Cyngor yn ei defnyddio i farnu ei effeithiolrwydd

## Mae’r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth sicrhau gwelliant yn ei feysydd â blaenoriaeth

### Mae ei berfformiad yn parhau i wella yn y rhan fwyaf o’r agweddau ar waith y Cyngor i addasu’r ffordd y cyflenwir gwasanaethau er mwyn mynd i’r afael â newidiadau demograffig

12 Roedd *Cynllun Corfforaethol 2009-2012* y Cyngor yn cynnwys yr amcan o addasu’r ffordd y cyflenwir gwasanaethau er mwyn mynd i’r afael â newidiadau demograffig. Nododd fod poblogaeth Sir Ddinbych yn tyfu ryw 1,000 bob blwyddyn a bod y boblogaeth yn heneiddio. Dywedodd fod angen denu pobl ifanc ac annog pobl ifanc Sir Ddinbych i greu dyfodol yn y sir fel y gellid, dros amser, sicrhau poblogaeth fwy cytbwys. Byddai hyn yn golygu moderneiddio addysg, sicrhau bod tai addas ar gael a defnyddio’r *Cynllun Datblygu Lleol* i roi braslun o’r seilwaith yn y dyfodol ar gyfer meysydd preswyl, busnes a gwasanaethau yn y sir. Fodd bynnag, y blaenoriaethau cychwynnol oedd:

- annibyniaeth a dewis i bobl hŷn – gall pobl hŷn fyw’n annibynnol am gyfnod hirach;
- annibyniaeth a dewis i bobl ag anableddau dysgu; a
- mentrau cymunedol i ddiwallu anghenion poblogaeth gynyddol o bobl hŷn ac anabl.

13 Canfuom fod perfformiad y Cyngor yn parhau i wella yn y rhan fwyaf o’r agweddau ar ei waith i addasu’r ffordd y cyflenwir gwasanaethau er mwyn mynd i’r afael â newidiadau demograffig.

**Mae’r trefniadau i gynorthwyo pobl hŷn i fod yn annibynnol yn parhau i wella**

14 Mae’r Cyngor wedi nodi ystod o gamau gweithredu i gynorthwyo â byw’n annibynnol sy’n cynnwys:

- cynyddu’r cymorth i’r rheiny sydd wedi cwympo neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty neu sydd mewn sefyllfaoedd eraill trwy wasanaethau ailalluogi;
- gwella’r dewisiadau o ran tai â chymorth trwy ‘dai gofal ychwanegol’;
- gostwng nifer y bobl sydd angen cymorth mewn cartrefi gofal;
- mwy o ddefnydd o deleofal.

Yn 2011-12, gwellodd y perfformiad o ran yr holl gamau gweithredu hyn o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

15 Daeth AGGCC i’r casgliad yn adroddiad y Cyfarwyddwr[1] am y flwyddyn 2011-12, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2012, y bu newid cadarnhaol a gwelliant yn y gwasanaethau i oedolion ond bod asesu anghenion gofalwyr yn parhau i fod yn faes ar gyfer gwella. Mae’r canlynol yn grynodeb a gafwyd o’r adroddiad llawn.

1 Adolygiad blynyddol o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor a wneir gan AGGCC sy’n cynnwys asesiad o hunanwerthusiad Cyngor o’i berfformiad (a elwir yn aml ‘adroddiad y Cyfarwyddwr’). Mae AGGCC yn darparu gwerthusiad cyffredinol o’i berfformiad ac yn nodi meysydd sydd wedi gwella a meysydd i’w gwella.

16 Canfu AGGCC fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd mewn datblygu ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol lleol prif ffrwd i annog annibyniaeth. Mae gwasanaeth ailalluogi wedi ei roi ar waith yn llwyddiannus. Nid oes angen gwasanaeth ychwanegol ar ddwy ran o dair o'r bobl a atgyfeirir ato a rhoddodd y rhan fwyaf o bobl a holwyd adborth cadarnhaol o'u profiad. Mae'r Cyngor yn ceisio ffyrdd i ehangu'r model gwasanaeth ailalluogi i bobl y darparwyd gwasanaethau iddynt gan y sector annibynnol.

17 Canfu AGGCC fod y Cyngor wedi llwyddo i ddarparu dewisiadau eraill yn hytrach na gofal preswyl drwy ddarpariaeth gynyddol o dai gofal ychwanegol, a mwy o ddatblygu tai gwarchod a chynlluniau byw yn y gymuned sy'n bodoli eisoes. Darperir llawer o wasanaethau mewn partneriaeth â iechyd, y sector annibynnol neu'r sector gwirfoddol. Mae datblygiadau cadarnhaol eraill yn cynnwys ehangu teleofal i 450 o bobl yn ychwanegol a chyflawni darparu dros 80 y cant o gyfarpar sy'n helpu i gynnal symudedd ac annibyniaeth pobl o fewn pum diwrnod gwaith.

18 Canfu AGGCC hefyd fod y Cyngor wedi cyflwyno mesurau penodol i gynyddu'r rhan a gymerir gan ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol mewn cynllunio a darparu gwasanaethau. Roedd hyn yn nodwedd ganolog mewn datblygu gwasanaethau byw yn y gymuned, er enghraifft, a dangoswyd hyn hefyd drwy hyfforddiant pum unigolyn hŷn dan y fenter Urddas Mewn Gofal a Chydraddoldebau (DICE). Helpodd hyn i ledaenu'r neges DICE i Bobl Hŷn, i staff a gyflogir gan y Cyngor a'r sectorau annibynnol a gwirfoddol drwy ddigwyddiadau hyfforddi. Menter arall yw cynnwys defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl fel aelodau cyflogedig o fyrddau cynllunio gwasanaethau.

19 Defnyddiwyd nifer o fentrau i wella gwasanaethau i ofalwyr ac mae'r Cyngor yn adrodd y darperir gwasanaeth i 100 y cant o ofalwyr a asesir. Fodd bynnag, dim ond i oddeutu traean y gofalwyr y cynigiwyd neu y darparwyd asesiad neu adolygiad. Datblygodd rhestr aros am asesiadau yn 2011-12. Mae arian ychwanegol wedi ei ddarparu i fynd i'r afael â galw cynyddol. Mae hwn yn faes lle nododd AGGCC bod angen gwell perfformiad.

**Mae cynnydd yn cael ei wneud wrth gynorthwyo pobl ag anabledd dysgu i fod yn annibynnol**

20 Mae'r Cyngor wedi cynyddu nifer a chyfradd yr oedolion ag anableddau dysgu sy'n cael eu cynorthwyo yn y gymuned ac wedi gostwng nifer a chyfradd y bobl sy'n cael eu cynorthwyo mewn cartrefi gofal. Hefyd, cwblhawyd y prosiect i ddarparu llety newydd i bobl ag anableddau dysgu ym mis Gorffennaf 2012.

21 Un mesur allweddol i gynyddu nifer y bobl sy'n arfer dewis a rheolaeth llawn dros eu cymorth personol yw trwy hyrwyddo taliadau uniongyrchol yn well a sicrhau cynnydd yn nifer y bobl sy'n manteisio arnynt. Dywedodd AGGCC fod nifer y bobl sy'n manteisio ar Daliadau Uniongyrchol yn Sir Ddinbych yn dal yn isel o'i gymharu â rhai cynghorau eraill. Cymerodd y Cyngor gamau i geisio

cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar Daliadau Uniongyrchol yn ystod 2011-12 ond nid yw effeithiolrwydd y mesurau a gymerwyd i'w weld hyd yma.

**Mae rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud gyda'r cynlluniau i gefnogi mentrau cymunedol i ddiwallu anghenion pobl hŷn ac anabl**

22 Mae'r Cyngor yn defnyddio ystod o ddangosyddion lleol i farnu llwyddiant wrth hybu a hwyluso ffordd iach o fyw a lles i bobl hŷn ac anabl. Mae'r mesurau perfformiad mae'r Cyngor wedi'u dewis i adlewyrchu'r cynnydd o dan yr amcan hwn yn dangos darlun cadarnhaol yn gyffredinol.

23 Fodd bynnag, roedd nifer y bobl a gynorthwywyd i gael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth islaw targed y Cyngor a gostyngodd nifer y bobl a gymerodd ran mewn sesiynau chwaraeon anabledd o 8,504 i 3,012 yn 2011-12. Mae penodi Swyddog Chwaraeon Anabledd wedi cyd-daro â rhywfaint o gynnydd yn nifer y rhai a gymerodd ran mewn chwaraeon yn ystod 2012.

## Bu cynnydd wrth gefnogi prosiectau adfywio yn y Rhyl ond, mewn cyfnod economaidd heriol, mae'r cynnydd wedi bod yn araf wrth gefnogi twf economaidd ar draws Sir Ddinbych yn gyfan

24 Roedd gan amcan gwella'r Cyngor ar gyfer 2011-12 i 'adfywio ein cymunedau' dri chanlyniad bwriadedig:

- lleihau amddifadedd economaidd-gymdeithasol ar y llain arfordirol ogleddol;
- cynorthwyo twf economaidd cynaliadwy;
- lleihau cyfradd dirywiad yn yr economi wledig.

**Mae cynnydd wedi cael ei wneud wrth gynorthwyo prosiectau adfywio allweddol yn y Rhyl ac mae'r Cyngor wedi dechrau canfod yr adnoddau mae eu hangen i gyflawni'r uchelgeisiau mae'n eu rhannu gyda phartneriaid ar gyfer y dref**

25 Mae'r Cyngor yn ceisio lleihau amddifadedd difrifol ar y llain arfordirol ogleddol – yn enwedig mewn rhannau o'r Rhyl. Ni chyflawnodd y Cyngor a'i bartneriaid yr holl dargedau a chamau gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 2011-12 mewn perthynas â chynyddu boddhad gyda'r ardal fel lle i fyw na gostwng nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi. Fodd bynnag, llwyddodd y Cyngor a'i bartneriaid i leihau difrod troseddol, gan barhau i gefnogi nifer o brosiectau cyfalaf gan gynnwys dechrau gwaith ar y bont newydd a'r gwelliannau i Harbwr y Foryd. Gwnaethpwyd penderfyniadau allweddol ynghylch cadw'r

Sky Tower fel adeilad eiconig a dymchwel yr Honey Club fel rhan o'r prosiect cael gwared ar ddoluriau llygad.

26 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth drwyddedu 41 o dai mewn amlfeddiannaeth, wedi cyflawni ei darged i drwyddedu 30 o dai bob blwyddyn ar gyfer 2011-12 a chynyddu canran y disgyblion blwyddyn 11 yn y Rhyl sy'n parhau mewn addysg.

27 Unwaith eto nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei nod o ostwng cyfradd yr hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith yn y Rhyl o'i chymharu â mannau eraill yn Sir Ddinbych. Fel yn 2010-11, bydd y problemau cyffredinol yn yr economi wedi effeithio ar nifer yr hawlwyr. Fel y dywedasom yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddo*l diwethaf, mae'r dasg o adfywio'r Rhyl yn un anodd a chyfyngedig yw dylanwad y Cyngor. Mae angen cryn dipyn o fuddsoddiad cyfalaf ynghyd â gwella a datblygu prif atyniadau a safleoedd. Fodd bynnag, mae cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, y Cyngor a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer y gwaith o ddatblygu Harbwr y Foryd, gan gynnwys llwybr beicio a phont droed newydd, yn dangos cynnydd.

28 Ailbennwyd atebolrwydd rheolwyr dros yr amcan adfywio yn ystod 2012 yn dilyn y broses o ailstrwythuro'r haen uwch reoli a phenodi cyfarwyddwr strategol newydd. Canfuom fod y newid hwn wedi arwain at fwy o gymhelliant a ffocws i'r gwaith yn y Rhyl. Mae rhywfaint o'r cymhelliant hwn wedi canolbwyntio ar y cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* sy'n dwyn ynghyd yr elfennau gwahanol o waith presennol yn fframwaith cliriach a mwy penodol. Fodd bynnag, fel y dywedasom yn ein hadroddiad y llynedd, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod angen nodi'n glir pa gymorth sydd ei angen gan ei holl wasanaethau a'i bartneriaid i gyfrannu at y broses o weithredu'r strategaeth, yn enwedig adfywio Gorllewin y Rhyl. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd o ran gwaith yma yn ystod 2013-14.

**Mae'r Cyngor wedi cyflawni llawer o gamau gweithredu i gefnogi economi'r Sir ond cynnydd cyfyngedig mae ei fesurau llwyddiant yn ei ddangos mewn cyfnod economaidd heriol iawn**

29 Gosododd y Cyngor ystod o gamau gweithredu iddo ef ei hun i gefnogi datblygu economaidd ac mae wedi llwyddo i gyflawni llawer ohonynt, ond, mewn cyfnod economaidd heriol iawn, mae'n anodd barnu effaith ymyrraeth y Cyngor.

30 Cyflawnodd y Cyngor ei darged i ostwng cymhareb prisiau tai i enillion cyfartalog, ond mae'n bosibl nad yw'r canlyniad hwn ond yn adlewyrchu'r problemau economaidd a arweiniodd at brisiau tai is.

31 Methwyd y targed i ostwng nifer yr hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith o'i chymharu â'r nifer yng Nghymru, ond mae'r dangosydd hwn wedi amrywio ac mae'n bosibl nad yw'n adlewyrchu effeithiolrwydd gwaith y Cyngor i gefnogi twf economaidd. Mae'r gostyngiad yn ystod 2011-12 yng nghanran anweithgarwch economaidd yn Sir Ddinbych yn gadarnhaol ac yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

32 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-dal tai yn cefnogi gwelliant; dylai'r prosesau sicrhau y gwneir taliadau'n brydlon i'r bobl iawn a bod y gwasanaeth yn effeithiol ac yn ymatebol at ei gilydd. Mae'r amser cyfartalog i brosesu hawliadau newydd am fudd-dal tai yr un peth â chyfartaledd Cymru, sef 20 diwrnod, ac wedi gwella ers y llynedd. Mae'r amser cyfartalog i brosesu hysbysiadau newid amgylchiadau'n well na chyfartaledd Cymru. Cafodd canran uwch o hawliadau newydd eu penderfynu o fewn 14 diwrnod nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae lefel y gweithgarwch ym maes gwrth-dwyll wedi codi gyda nifer uwch o atgyfeiriadau, ymchwiliadau a sancsiynau llwyddiannus ar gyfer twyll nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae nifer y ceisiadau a gafodd eu hailystyried neu eu diwygio a nifer yr apeliadau wedi gostwng. Dirywiodd perfformiad nifer fach o ddangosyddion yn ystod 2011-12. Yn fwyaf nodedig mae canran y gordaliadau a gafodd eu canfod a'u hadennill wedi gostwng, ac mae'n cymryd yn hirach i'r gwasanaeth ymdrin â cheisiadau i gael eu hailystyried neu eu diwygio, ac apeliadau.

**Mae gwaith y Cyngor i leihau cyfradd dirywiad yr economi wledig yn dangos cynnydd yn unol â'i dargedau**

33 Cyflawnodd y Cyngor y targedau a osodwyd iddo ef ei hun i leihau cyfradd dirywiad yr economi wledig, a rhagorodd ar y targedau i gynorthwyo microfentrau gwledig a nifer y swyddi a grëwyd gan y fath fusnesau. Mae Grwpiau Aelodau Ardal yn parhau i fynd i'r afael â materion graddfa fach y bernir eu bod yn effeithio ar yr economi wledig leol megis prosiect ailwampio Neuadd Pwllglas yn Rhuthun.

## Mae Estyn wedi barnu bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau addysg o ansawdd da i blant a phobl ifanc a bod y rhagolygon gwella yn dda

34 Cynhaliodd Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) a Swyddfa Archwilio Cymru arolygiad o wasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2012. Mae'r canlynol yn grynodeb o'r adroddiad llawn.

35 Canfu Estyn fod lefelau prydau ysgol am ddim a mesurau amddifadedd eraill yn Sir Ddinbych wedi cynyddu'n gyflymach nag y maent ledled Cymru yn y tair blynedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, mae perfformiad hefyd wedi gwella'n gyflymach nag y mae ledled Cymru yng nghyfnodau allweddol 2 a 4 fel ei gilydd yn ystod y cyfnod hwn. Fe wnaeth perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 gadw i fyny â pherfformiad ledled Cymru tan 2010, ond gwella'n arafach a wnaeth yn 2011. Yn 2011, roedd canrannau'r dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnodau allweddol 2 a 4 uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn cymharu'n well ag awdurdodau eraill nag y gellid ei ddisgwyl pan ystyrir gwybodaeth gyd-destunol. Fodd bynnag, yng nghyfnodau allweddol 1 a 3, disgynnodd perfformiad islaw cyfartaleddau Cymru.

36 Daeth Estyn i'r casgliad bod perfformiad Sir Ddinbych yn erbyn meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf. At ei gilydd, roedd cynnydd da rhwng ysgolion cynradd

ac uwchradd. Yn 2011, roedd y bwlch mewn perfformiad ar y dangosydd pwnc craidd rhwng bechgyn a merched yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ym mhob cyfnod allweddol. Roedd grwpiau penodol o ddysgwyr, yn cynnwys grwpiau bregus a'r rhai oedd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni eu lefelau disgwyliedig ar y cyfan. Roedd dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn ennill medrau mewn Cymraeg mamiaith ac ail iaith, ac yn cyflawni safonau da yn y ddau bwnc ar y cyfan. Bu gwelliant yng nghanran y dysgwyr oedd yn gadael yr ysgol gynradd gyda llythrennedd gweithredol yn 2011, ac roedd yn well na'r cyfartaledd ledled Cymru. Roedd dysgwyr sy'n cael cymorth i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gwneud cynnydd da ac roedd llawer ohonynt yn cynnal y gwelliant hwn hyd at ddiwedd y cyfnod allweddol. Roedd canran y dysgwyr ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac roedd yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

37 Canfu Estyn fod y cymorth ar gyfer gwella ysgolion wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Roedd gwasanaethau gwella ysgolion a chynhwysiant yr awdurdod wedi cael eu hailstrwythuro o dan un pennaeth gwasanaeth. Roedd yr ailstrwythuro hwn wedi cryfhau'r cydweithio rhwng swyddogion yn yr awdurdod yn sylweddol ac roedd yn helpu i wella cyflawniad pob dysgwr.

38 Canfu'r arolygiad fod gan yr awdurdod drefniadau da iawn i gefnogi a herio ysgolion, a'i fod yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn. Caiff data ei ddadansoddi'n drylwyr a'i ddefnyddio'n effeithiol i herio cynnydd a thargedu ymyriadau. Mae swyddogion yn arfarnu ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion yn drylwyr ac yn cymharu'r rhain ag arfarniadau'r penaethiaid eu hunain. O ganlyniad, mae trylwyredd a chysondeb her swyddogion ac aelodau i arweinwyr a rheolwyr mewn ysgolion yn cyfrannu'n dda at wella safonau. Mae her yn nodwedd gref iawn o waith yr awdurdod. Ar adeg arolygiad yr awdurdod, mae nifer ysgolion Sir Ddinbych y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt ar ôl arolygiad ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae Cytundeb Partneriaeth y Cyngor gydag ysgolion yn amlinellu meini prawf clir i ddiffinio lefel briodol o gymorth ac ymyrraeth. Mae gweithdrefnau da yn bodoli hefyd i nodi meysydd risg penodol ac ymateb yn effeithiol iddynt. O ganlyniad, mae swyddogion yn mynd ati'n gywir i nodi ysgolion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, sy'n arwain at welliant cyson mewn safonau. Eir i'r afael â gwendidau systematig mewn arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion yn effeithiol i wneud yn siŵr bod ysgolion yn gwella'n ddigon cyflym.

39 Mae'r prosesau statudol mewn perthynas â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae systemau trylwyr ar gyfer safoni ceisiadau am gymorth ychwanegol wedi arwain at ostyngiad yn nifer y datganiadau o anghenion addysgol arbennig a gyflwynir. Mae perthnasoedd a chyfathrebu da gyda rhieni ac ysgolion yn helpu cadw nifer yr atgyfeiriadau i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn gyson isel, gydag un apêl yn unig wedi'i chaniatáu er 2009. Mae'r awdurdod yn addysgu ychydig dros hanner o'r dysgwyr sydd â datganiadau mewn ysgolion prif ffrwd, gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn

yn mynychu dosbarthiadau prif ffrwd gyda'u cyfoedion. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael eu haddysgu'n agos at eu cartref eu hunain. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n mynychu ysgolion arbennig annibynnol, sy'n galluogi'r awdurdod i wario bron yr holl gyllideb anghenion addysgol arbennig ar ddysgwyr yn ei ysgolion ei hun.

40 Daeth Estyn i'r casgliad bod gwerth cyffredinol am arian mewn gwasanaethau addysg yn dda. Roedd y cyllidebau fesul disgybl ar gyfer addysg gynradd ac uwchradd ychydig islaw cyfartaledd Cymru, er bod cyrhaeddiad yn y rhan fwyaf o gyfnodau allweddol uwchlaw'r cyfartaledd. Mae'r awdurdod yn datblygu ei drefniadau i asesu deilliannau a gwerth am arian o wasanaethau a gomisiynir oddi wrth asiantaethau allanol, er nad yw'r rhain wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr holl wasanaethau o'r fath ar adeg yr arolygiad.

41 Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gyflawni ei gynlluniau am ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, ac wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno ei raglen Moderneiddio Addysg. Mae wedi cytuno ar fframwaith priodol ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac mae'n cyflwyno'r fframwaith hwn trwy broses effeithiol o adolygiadau ardal. Mae'r Cyngor eisoes wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'i flaenoriaethau diffiniedig i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a lleihau nifer y lleoedd dros ben. Mae swyddogion yn diweddaru arolygon rheoli asedau yn gyson ac yn defnyddio'r rhain i flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw.

## Mae rhaglen y Cyngor i wella ffyrdd yn gwneud cynnydd ond, yn dilyn y llifogydd yn 2012, mae ymchwiliad annibynnol yn cael ei gynnal i weld a oes angen unrhyw gamau gweithredu i sicrhau y bydd perygl llifogydd yn y Sir yn cael ei reoli'n briodol yn y dyfodol

42 Yn 2011-12, un o flaenoriaethau gwella'r Cyngor yw 'sicrhau rhwydwaith ffyrdd cynaliadwy ac amddiffyn rhag llifogydd'. Mae'r Cyngor wedi dweud na chyflawnodd ei holl dargedau ar gyfer gwella cyflwr ei ffyrdd yn 2011-12. Gwellodd y dangosyddion ar gyfer cyflwr ffyrdd B ac C ond parhaodd y duedd i gyflwr ffyrdd A waethygu. Cyfrannodd pryder gan y cyhoedd am gyflwr y ffyrdd ac ymwybyddiaeth o berfformiad y Cyngor at benderfyniad y Cyngor i ganfod cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith cynnal a chadw'r ffyrdd yn 2011-12. Mae rhan o'r £1.5 miliwn a ganfuwyd i'w buddsoddi ym mlaenoriaethau'r Cyngor wedi cael ei defnyddio i dalu am fenthyciadau darbodus o oddeutu £7 miliwn ar gyfer gwaith mawr ar y priffyrdd. Mae cyfarpar newydd hefyd wedi cael ei brynu. Mae'r Mynegai Cyflwr Ffyrdd yn ddangosydd newydd i ddarparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr am gyflwr y rhwydwaith ffyrdd yn y sir, ac mae'n rhoi mwy o gyfle i'r Cyngor dargedu buddsoddiad yn y dyfodol mewn ardaloedd megis Dyffryn Dyfrdwy, lle'r ymddengys fod y ffyrdd mewn cyflwr gwael iawn.

43 Un o'r rhesymau dros gadw ffyrdd mewn cyflwr da yw er mwyn gwella diogelwch. Bellach mae'r Cyngor yn mynd ati i fonitro diogelwch ar y ffyrdd trwy fesurau ar gyfer atal sgidio, damweiniau fesul cilometr, nifer y bobl sy'n manteisio ar hyfforddiant beicio a diogelwch, a hawliadau yswiriant. Yn 2001-12 cyrhaeddodd yr holl ddangosyddion hyn dargedau'r Cyngor.

44 Tan fis Hydref 2012 roedd y gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith yn cael ei reoli ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac roedd timau ac elfennau'r gwasanaeth yn cael eu hintegreiddio fwyfwy. Yn 2012 cynhaliodd y ddau gyngor gydadolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau partneriaethol hyn. Dangosodd y Cynllun Busnes a ddeilliodd o'r adolygiad na fyddai gwasanaeth Priffyrdd cwbl integredig yn sicrhau unrhyw arbedion nac effeithlonrwydd sylweddol. Yn dilyn ailstrwythuro'r haen uwch reoli, nid yw'r gwasanaeth yn cael ei gydreoli mwyach ond mae'r ddau Gyngor yn parhau i chwilio am ragor o gyfleoedd i symleiddio'r drefn reoli, lleihau costau a gwella gwasanaethau trwy gryfhau'r meysydd is-wasanaeth hynny sydd eisoes o dan reolaeth sengl a chyfleoedd eraill lle byddai cydweithredu efallai'n dod â buddion i'r preswylwyr.

45 Amcan y Cyngor yw lleihau nifer yr adeiladau sydd mewn perygl o gael llifogydd. Mae adroddiad diweddar gan Asiantaeth yr Amgylchedd[2] yn dweud bod gan Sir Ddinbych oddeutu 3,000 o adeiladau sydd mewn perygl sylweddol o gael llifogydd ac oddeutu 14,000 o adeiladau ychwanegol sydd mewn perygl cymedrol neu fach. Nod y Cyngor oedd lleihau perygl llifogydd ar gyfer 1,575 o adeiladau oedd mewn perygl mawr yn ystod 2009-2012, yn bennaf trwy gwblhau cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd yn Llangollen, Dinbych, Corwen a Gorllewin y Rhyl. Roedd y cynlluniau hyn wedi cael eu hariannu'n bennaf trwy grantiau gan y llywodraeth. Mae'r cynlluniau hyn wedi lleihau perygl llifogydd ar gyfer 995. Mae gwaith wedi dechrau ar gynllun amddiffyn arfordir Gorllewin y Rhyl, a ddylai gael ei gwblhau yn 2013-14. Mae cynllun amddiffyn rhag llifogydd ar gyfer Corwen nawr wedi denu arian gan Lywodraeth Cymru, ac mae gwaith ar fin dechrau arno.

46 Ym mis Tachwedd 2012, cafwyd llifogydd difrifol ledled y Gogledd ac mewn 10 man ar draws Sir Ddinbych. Gwnaethpwyd difrod sylweddol i eiddo a bu farw preswylydd hen a bregus. Sefydlodd y Cyngor weithgor i ymchwilio i'r llifogydd, sydd eisoes wedi llunio rhai argymhellion interim. Mae'r ymchwiliad yn cael ei gyflawni o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, gan weithio mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac Awdurdod Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Diben yr ymchwiliad yw egluro pam y digwyddodd y llifogydd, pa mor debygol yw hi y bydd llifogydd ar y raddfa honno'n digwydd eto, ac a oes angen unrhyw gamau gweithredu gwella i sicrhau bod perygl llifogydd yn y Sir yn cael ei reoli'n briodol yn y dyfodol. Mae canlyniadau terfynol yr ymchwiliad i fod i gael eu cyhoeddi yn haf 2013.

2 *Llifogydd yng Nghymru: Asesiad bygythiad llifogydd cenedlaethol*, Asiantaeth yr Amgylchedd, Medi 2011

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da gyda'i gamau gweithredu a gynlluniwyd i wella'r ffordd mae'n gweithio

47 Yn y *Cynllun Corfforaethol 2009-2012*, addawodd y Cyngor y byddai'n dod yn 'Gyngor sy'n perfformio ar lefel uchel ac yn agos at y gymuned'. Un o amcanion gwella'r Cyngor yw gwella'r ffordd mae'n gweithio. Canfuom fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da gyda'r camau gweithredu a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r amcan hwn.

48 Targed y Cyngor yw bod yn hanner uchaf cynghorau Cymru o ran perfformiad mewn detholiad o 19 dangosydd o blith y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC), y mae'n ofynnol i bob cyngor eu mesur. Er nad yw'r dangosyddion bob amser yn fesurau da o ganlyniadau i breswylwyr, maent yn cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y ffordd y cyflenwir gwasanaethau. Maent yn cynnwys dangosyddion ar gyfer: cyrhaeddiad addysgol disgyblion 16 oed; pa mor amserol y rhoddir datganiadau anghenion addysgol arbennig; cymorth i aelwydydd a allai fod yn ddigartref; nifer yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd; newidiadau ysgol i blant sy'n derbyn gofal; a lefelau'r gwastraff sy'n cael ei ailgylchu.

49 Yn 2011-12, gwnaeth y Cyngor ragor o gynnydd, gyda 15 o'r 19 dangosydd yn y chwartel uchaf yng Nghymru. Mae tri dangosydd lle cofnodwyd lefelau perfformiad yn hanner isaf y cynghorau yng Nghymru ac mae'r Cyngor wedi dweud yn ei adroddiad blynyddol pa gamau mae'n bwriadu eu cymryd i wella ei berfformiad.

50 Cyflawnodd y Cyngor ganran uwch o'i dargedau mesurau canlyniadau yn ystod 2011-12 (61 y cant) o'u cymharu â 2010-11 (55 y cant), er bod hyn yn is na'r ganran a gafwyd yn 2009-10 (66 y cant).

51 Yn *Adroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd pwysleisiasom fod angen i'r Cyngor fynegi'n gliriach y meini prawf llwyddiant ar gyfer cyflawni ei uchelgais i fod 'yn agos at y gymuned', ac i egluro'r atebolrwydd a'r gwaith monitro ar gyfer y nod hwn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi nodi dau ddull o fesur llwyddiant wrth ddod â'r Cyngor 'yn agos at y gymuned'. Y cyntaf oedd trwy gyflawni canlyniadau ei flaenoriaethau corfforaethol, sydd wedi cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y gymuned. Yr ail oedd trwy ystyried canlyniadau'r Arolwg Preswylwyr diweddaraf.

52 Aeth yr Arolwg Preswylwyr, a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn 2009 ac yna yn 2011, at ddetholiad ar hap o 6,000 o aelwydydd yn Sir Ddinbych. Awgrymodd arolwg y Cyngor fod mwy o bobl yn Sir Ddinbych yn 2011 yn teimlo bod y Cyngor yn gweithredu ar eu pryderon ac yn trin pobl yn deg.

53 Yn ystod 2011-12, mae Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu a Chymunedau'r Cyngor wedi arwain y gwaith o ddatblygu rhaglen waith newydd i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ddod yn 'agosach at y gymuned'. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi gweithredu nifer o fentrau yn ystod 2011-12, gan gynnwys y cynlluniau trefi a'r grwpiau aelodau ardal. Nod y cynlluniau trefi yw galluogi cymunedau lleol i gymryd rhan fwy gweithredol yn y gwaith o gynllunio mentrau

i adfywio eu hardaloedd lleol. Nod y grwpiau aelodau ardal yw gwella'r broses ar gyfer ymgynghori ag aelodau lleol ar faterion cymunedol.

54 Fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i ddod â'i hun yn 'agosach at y gymuned' mae'r Cyngor yn adrodd ar y cynnydd wrth gyflawni gwelliannau penodol ar draws chwe ardal gymunedol y Sir. Mae'r gwelliannau a nodir ar gyfer pob ardal gymunedol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lleol y cytunwyd arnynt yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Corfforaethol. Disgrifiadol gan fwyaf yw'r dadansoddiad o'r cynnydd gyda'r gwelliannau cymunedol, fel yr adran ar y gwaith i wella ardal Harbwr y Rhyl, ac nid yw'n glir bob amser sut mae'r preswylwyr wedi cael budd yn uniongyrchol.

## Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor yn cefnogi gwaith hunanwerthuso dibynadwy ond mae lle i wella ansawdd rhywfaint o'r dystiolaeth mae'r Cyngor yn ei defnyddio i farnu ei effeithiolrwydd

55 Daeth ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf (Ionawr 2012) i'r casgliad bod trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn gadarn ac yn datblygu'n foddhaol, gydag arweinyddiaeth glir ac effeithiol gan uwch swyddogion a chynghorwyr. Mae hyn yn parhau i fod yn wir. Mae'r pwyllgor craffu ar berfformiad a'r heriau chwe-misol i wasanaethau'n cael gwybodaeth am y perfformiad sydd o ansawdd cyson ac mewn fformat hawdd ei ddeall. Yn ogystal â'r her i wasanaethau, mae Cabinet y Cyngor yn adolygu'r perfformiad bob chwarter. Mae lle o hyd i wella ansawdd y cwestiynau mae rhai o aelodau'r pwyllgor yn eu gofyn yn yr heriau i wasanaethau er mwyn sicrhau y canolbwyntir yn fwy cyson ar y materion cywir.

56 Canfuom fod y Cyngor wedi creu tîm polisi canolog cryf sy'n goruchwylio, cydgysylltu a rheoli'r perfformiad. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i weithredu system gyson a ddeellir yn dda ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'r staff yn y gwasanaethau'n cydnabod eu bod yn gyfrifol am eu perfformiad ac yn deall sut mae eu gwaith yn perthyn i gyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor a'i flaenoriaethau corfforaethol.

57 Ym mis Mehefin 2012, cyflwynasom adroddiad ar ganlyniadau ein harchwiliad o gywirdeb sampl o ddangosyddion perfformiad y Cyngor. Er bod ein sampl yn llai eleni nag yn y gorffennol, roedd y canlyniadau'n foddhaol ac ni osodasom amodau ar unrhyw un o ddangosyddion perfformiad y Cyngor.

58 Mae yna enghreifftiau o hunanwerthusiad cryf mewn gwasanaethau unigol. Mae AGGCC wedi dod i'r casgliad bod adroddiad y Cyfarwyddwr[3] wedi dangos bod trefniadau clir yn bodoli ar gyfer arwain a rheoli perfformiad a bod adroddiad y Cyfarwyddwr yn rhoi esboniad cynhwysfawr a manwl o'r flwyddyn ddiwethaf, gan osod y cyd-destun lleol gyda disgrifiad clir o'r cyflawniadau a'r heriau mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u hwynebu ac yn parhau i'w hwynebu. Mae'n cyfeirio at gyflawniadau'r Cyngor a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ac mae'n cydnabod meysydd lle mae angen gwella perfformiad o hyd neu lle nad yw datblygiadau gwasanaeth wedi cael eu cyflawni hyd yn hyn. Mae'r adroddiad hefyd yn esbonio pam y gwneir newidiadau na fyddant yn boblogaidd yn syth efallai ac mae'n rhoi cyfle i ddarllenwyr yr adroddiad roi adborth. Mae'r Cyngor wedi darparu i AGGCC ddatganiadau manwl o ran y sefyllfa ar gyfer gwasanaethau i oedolion ac i blant yn ogystal â thystiolaeth ategol.

59 Canfu arolygiad Estyn hefyd fod y Cyngor yn adolygu ac yn herio'i wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn gadarn bob blwyddyn i sicrhau gwelliant a gwerth am arian. Roedd y Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau i gynorthwyo ysgolion sydd mewn trafferthion ariannol ac wedi gwella effeithiolrwydd gwaith monitro a rheoli cynlluniau adfer. Gwnaed cynnydd da mewn datblygu trefniadau cynllunio'r gweithlu yn yr awdurdod ac ar gyfer ysgolion.

3 Adolygiad blynyddol o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor a gynhelir gan AGGCC sy'n cynnwys asesiad o hunanwerthusiad Cyngor o'i berfformiad (a elwir yn aml 'adroddiad y Cyfarwyddwr'). Mae AGGCC yn darparu gwerthusiad cyffredinol o'i berfformiad ac yn nodi meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w gwella.

60 Cafodd Adroddiad Perfformiad blynyddol y Cyngor (yr Adroddiad) ei gyhoeddi cyn y terfyn amser statudol sef 31 Hydref 2012. Mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2011-12) ac yn nodi'n glir sut mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.

61 Mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion y perfformiad fel y'u mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol ac yn rhoi darlun clir, da ei strwythur o gynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei Amcanion Gwella. Mae'r Adroddiad yn gryno ac wedi'i ysgrifennu'n dda ac, ar gyfer y rhan fwyaf o'r Amcanion Gwella a osodwyd am 2011-12, yn adrodd ar berfformiad clir wedi'i seilio ar ganlyniadau. Mae o gymorth bod y naratif yn cysylltu'r Amcanion Gwella â'r tablau o ddangosyddion perfformiad statudol ac allweddol. Lle na chyflawnwyd yr allbwn neu'r canlyniad, mae'r Adroddiad yn cynnwys sylwadau esboniadol cryno.

62 Canfuom fod yr Adroddiad Perfformiad yn cael ei gyflwyno'n glir, yn hawdd ei ddarllen ac yn defnyddio strwythur adrodd cyson i werthuso ac adrodd ar y perfformiad ar gyfer pob un o'r Amcanion Gwella. Mae'r Amcanion Gwella'n drawsbynciol ac yn nodi cyfleoedd i hybu integreiddio ar draws gwasanaethau ac adrannau er mwyn cyflawni'r gwelliant bwriadedig yn effeithiol. Mae'r Adroddiad yn cynnwys rhai sylwadau ar feysydd lle mae'r cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu wedi bod yn araf, neu lle mae'r perfformiad wedi gwaethygu. Er enghraifft, o ran y dangosydd ar gyfer rheoli risg atgyfeiriadau amddiffyn oedolion, mae'r Cyngor yn nodi bod y perfformiad wedi dirywio, ac yn nodi pam mae hyn wedi digwydd.

63 Fel sy'n ofynnol, yn yr Adroddiad ceir esboniad o'r ffordd mae ei gynnwys yn cyfrannu at ddyletswydd statudol y Cyngor i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a rhoi cyfrif amdano'.

64 Mae rhan olaf yr adroddiad yn rhoi crynodeb o berfformiad y Cyngor yn erbyn y 19 dangosydd cenedlaethol mae wedi'u dewis, a braslun o'i fframwaith rheoli perfformiad. Mae'r Cyngor yn asesu mai'r 19 dangosydd cenedlaethol yw'r detholiad mwyaf addas o ddangosyddion i farnu yn unol â hwy a yw'n 'Gyngor sy'n perfformio'n dda' ond byddai crynodeb sy'n cynnwys pob un o'r 41 o ddangosyddion cenedlaethol yn rhoi asesiad cliriach a mwy cynhwysfawr o'r cynnydd.

65 Mae pob Amcan Gwella'n cael ei gefnogi gan gyfres o weithgareddau a mesurau sy'n cael eu rheoli a'u cyflawni gan y maes gwasanaeth priodol a'u monitro drwy gydol y flwyddyn fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Yn bwysig iawn, mae'r Cyngor wedi cyflwyno prosesau mewnol allweddol yn y system hon i herio ac i reoli gwelliant.

66 Canfuom nifer o agweddau lle nad yw'r Adroddiad yn cydymffurfio cystal ag y gallai â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn benodol:

- Nid yw'r Adroddiad yn rhoi crynodeb cyflawn o'r cynnydd yn erbyn agweddau ar rai Amcanion Gwella. Er enghraifft, mae'n un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru y dylai'r holl dai cymdeithasol gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (y Safon). Mae'r Cyngor wedi adrodd ar ei berfformiad o ran y Safon trwy wahanol strwythurau ei fframwaith rheoli perfformiad, ond nid

yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad. Mae cyfran y cartrefi cymdeithasol ar rent a reolir gan y Cyngor ac sy'n bodloni'r Safon wedi codi i 86 y cant yn 2012, ond nid yw'r Adroddiad yn nodi yn unman mai targed Llywodraeth Cymru yw i'r holl gartrefi fodloni'r Safon erbyn mis Mawrth 2013. Mae'r amcangyfrif diweddaraf yn awgrymu y bydd y Cyngor yn un o bedwar Cyngor yn unig i gyrraedd y targed erbyn diwedd 2013.

- Yn rhai o'r Amcanion Gwella, mae'r Cyngor yn cydnabod fod yr hyn y canolbwyntir arno'n gul iawn ac nid yw'n caniatáu ar gyfer asesiad cyflawn o'r cynnydd. Er enghraifft, mae Canlyniad yr Amcan Gwella adfywio ar dwf economaidd cynaliadwy'n canolbwyntio'n gul ar dri dangosydd, a thri mesur perfformiad arall. Nid oes unrhyw fesurau neu gamau gweithredu ychwanegol wedi cael eu cynnwys, er enghraifft ar gynaliadwyedd nac ansawdd llety. Mae'r rhain yr un mor bwysig â'r dangosyddion presennol ar brisiau tai, ac mae diffyg y wybodaeth hon yn golygu mai darlun rhannol yn unig a roddir o ba mor dda mae'r Cyngor yn perfformio yn y maes hwn.

- Hefyd cyfeiriad cyfyngedig iawn yn unig a geir yn yr Adroddiad at statws a chanlyniadau'r prosiectau cydweithredol rhanbarthol ac is-ranbarthol sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn benodol at anawsterau diweddar o ran perfformiad gyda'r prosiect Priffyrdd cydweithredol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r goblygiadau i Gyngor Sir Ddinbych; roedd rhai agweddau arno yn destun adroddiad pwysig ar y cyd gan wasanaethau Archwilio Mewnol Conwy a Sir Ddinbych.

67 Ar 28 Medi 2012, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2011-12. Hefyd cyhoeddodd yr archwilydd penodedig ei *Lythyr Archwilio Blynyddol* cyn diwedd mis Tachwedd 2012 – mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

# Mae trefniadau'r Cyngor i gefnogi gwelliant yn dda

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur

68 Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012, penderfynodd y Cyngor ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd ar ôl llawer iawn o ymgynghori ac ymgysylltu gyda phreswylwyr a'i staff, gan gynnwys arolwg preswylwyr a gweithdai gyda phobl ifanc.

69 Cytunodd y Cyngor ar ei gynllun newydd, o'r enw *Cynllun Corfforaethol 2012-17: Cyngor rhagorol, yn agos at y gymuned* (y Cynllun), a'i gyhoeddi, ym mis Hydref 2012. Canfu ein gwaith archwilio ac asesu fod y Cynllun yn bodloni gofynion y Mesur. Mae'r Cyngor wedi nodi sail resymegol glir ar gyfer dethol y meysydd mae'n canolbwyntio ar eu gwella, wedi'i seilio ar ei berfformiad presennol, barn rhanddeiliaid a phartneriaid, a gwaith ymgynghori diweddar gyda dinasyddion. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu fersiwn Cymraeg o'r Cynllun ac wedi darparu fersiynau cryno ar ei wefan ac yn ei gylchlythyr, *Llais y Sir*.

70 Mae'r Cynllun yn nodi'n glir gyfraniad y Cyngor i strategaeth cymunedol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Ddinbych, *Cynllun Mawr Sir Ddinbych*. Mae gan y Cynllun Corfforaethol saith Amcan Gwella sy'n ymwneud ag: addysg ac adeiladau ysgolion; datblygu'r economi leol; gwella ffyrdd; amddiffyn pobl agored i niwed; strydoedd glân a thaclus; sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael; a moderneiddio'r Cyngor.

71 Mae'r Cyngor wedi datgan yn glir beth mae'r Amcanion Gwella'n anelu at ei gyflawni ac wedi cynnwys manylion bras, wedi'u cysylltu â'i Gynllun Ariannol Tymor Canol, am yr adnoddau sydd ar gael, yn rhai refeniw a rhai cyfalaf, i gynorthwyo â'r gwaith o'u cyflawni.

72 Nid yw eglurder y cysylltiad rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, data llinell sylfaen a thargedau ar gyfer gwella sy'n cyd-fynd â hwy'n gyson eto ar draws pob un o'r saith Amcan Gwella. Mae rhai cysylltiadau'n glir iawn ac yn dangos effaith fwriadedig gwella. Mae'r mesurau llwyddiant ar gyfer yr Amcan Gwella i wella ffyrdd, er enghraifft, yn canolbwyntio ar leihau canran y ffyrdd a ddisgrifir fel rhai sydd mewn cyflwr gwael, a gwella boddhad preswylwyr gydag ansawdd ffyrdd. Felly mae'n glir beth mae'r Cyngor yn ceisio ei wella.

73 Mewn rhai Amcanion Gwella eraill, nid yw'r mesurau i asesu a yw unrhyw un yn well ei fyd mor fanwl nac effeithiol eto. Mae'r Cyngor yn dweud ei fod yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater hwn trwy gyhoeddi'r canllaw technegol fydd yn diffinio dangosyddion i fesur llwyddiant yn yr holl Amcanion Gwella a'r 'trothwy rhagoriaeth' y mae'r Cyngor yn anelu at ei gyrraedd yn ystod oes y Cynllun Corfforaethol.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i *Gynllun Iaith Gymraeg*

74 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (y Ddeddf) yn nodi gofynion penodol i awdurdodau lleol yng Nghymru. Gwnaeth y Ddeddf hi'n ofynnol i gynghorau ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae cryn dipyn o aliniad rhwng y gofyniad i gynhyrchu Amcanion Cydraddoldeb a'r elfen 'Tegwch' y mae'n rhaid i awdurdodau roi ystyriaeth iddi wrth osod amcanion gwella o dan y Mesur. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n cynnwys rhywfaint o wybodaeth am waith y Cyngor ym maes cydraddoldeb, yn benodol mewn perthynas ag ymchwil ac adroddiadau ar bynciau sy'n gysylltiedig â grwpiau gwarchodedig a chynlluniau'r Cyngor yn y dyfodol ar gyfer ymgysylltu â'r grwpiau hyn. Rydym yn credu bod y Cyngor wedi bodloni gofynion y Ddeddf wrth osod ei Amcanion Gwella.

75 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

76 Barnodd y Comisiynydd fod Cyngor Sir Ddinbych wedi sefydlu proses llywodraethu gadarn, a bydd y Fforwm Aelodau Dwyieithog yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg pan fydd yr Awdurdod yn trafod, cadarnhau a gweithredu ei bolisïau. Mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu ei Ffurflen Asesu Perthnasedd Cydraddoldeb, sy'n cynnwys y Gymraeg, er mwyn sicrhau nad yw polisïau neu gynlluniau newydd yn cael effaith niweidiol ar yr iaith. Gyda monitro mwy effeithiol, mae'r Cyngor wedi sicrhau mwy o atebolrwydd a chraffu ynghylch yr iaith, ond bydd angen monitro contractwyr yn fwy trwyadl yn y flwyddyn i ddod. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i warantu gwasanaeth iaith Gymraeg yn ei brif ganolfannau cyswllt i'r cyhoedd, trwy sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd priodol i fanylion cyswllt, megis y llinell gymorth ddwyieithog, cyfeiriadau e-bost a'r wefan.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol

77 Cydymffurfiodd y Cyngor â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2011-12 ac mae wedi gwneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn y llythyrau ac adroddiadau archwilio blaenorol.

78 Cynhaliodd y Cyngor adolygiad o lywodraethu corfforaethol fel rhan o'r broses i ddiweddaru a chytuno ar ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Canfu'r adolygiad fod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i gydymffurfio â'r chwe egwyddor yn y fframwaith ond canfu'r adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau risgiau sylweddol o ran llywodraethu mewn perthynas â phartneriaeth a gwybodaeth. Rydym wedi gwneud rhagor o waith ym mhob cyngor yng Nghymru ar lunio'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a byddwn yn llunio adroddiad cenedlaethol maes o law.

79 Mae cyfrifoldeb rheoli yn y Cyngor am y cynllun *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* yn dal i fod mewn cyfnod o newid fel rhan o'r gwaith o ad-drefnu dyletswyddau ymysg penaethiaid gwasanaethau'r Cyngor. Ar lefel uwch, mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol, sydd newydd ei benodi, wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddatblygu economaidd. Byddwn yn darparu asesiad pellach o'r cynnydd mewn perthynas â chynllun Cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £234.8 miliwn y flwyddyn (cyllideb 2012-13), gan gynnwys grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyfateb i tua £2,500 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd y Cyngor hefyd yn bwriadu gwario £41.2 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D oedd £1,024 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.8 y cant i £1,052 ar gyfer 2012-13. Mae 84 y cant o dai Sir Ddinbych yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D. Y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer Band D yw'r uchaf ond pump yng Nghymru, er bod y codiadau blynyddol diweddar wedi bod islaw'r cyfartaledd.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 47 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Y Cynghorydd Hugh H Evans OBE yw'r Arweinydd. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 8 aelod Ceidwadol
- 13 aelod Annibynnol
- 8 aelod Plaid Cymru
- 18 aelod Llafur

Dr Mohammed Mehmet yw Prif Weithredwr y Cyngor ac mae ei dîm rheoli'n cynnwys:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles – Sally Ellis
- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol – Rebecca Maxwell
- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau – Hywyn Williams

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Sir Ddinbych yw:

- Ann Jones, Dyffryn Clwyd, y Blaid Lafur
- Darren Millar, Gorllewin Clwyd, y Blaid Geidwadol
- Ken Skates, De Clwyd, y Blaid Lafur

Yr Aelodau Cynulliad Rhanbarthol yw:

- Llyr Huws Gruffydd, Plaid Cymru
- Mark Isherwood, Plaid Geidwadol Cymru
- Aled Roberts, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Antoinette Sandbach, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Sir Ddinbych yw:

- Chris Ruane, Dyffryn Clwyd, Llafur
- David Jones, Gorllewin Clwyd, Ceidwadol
- Susan Elan Jones, De Clwyd, Llafur

Am fwy o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun ar www.sirddinbych.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN. Ffôn: 01824 706000.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Dr. Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1YN

Annwyl Mohammed

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi yn sgil fy nghyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Penodedig o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y Datganiad o Gyfrifon;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- cyhoeddi Tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad o'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 28 Medi 2012 cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y Datganiad o Gyfrifon yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y materion allweddol a oedd yn codi o'r cyfrifon eu cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Medi 2012.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar waith archwilio'r cyfrifon ar y Datganiad o Gyfrifon yn ogystal â rhoi hyder yn y gwaith a gyflawnwyd fel rhan o Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn gyffredinol, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd lle na ddangoswyd effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto neu lle gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor (2012 i 2017) yn nodi faint o arian ychwanegol y maent yn bwriadu ei fuddsoddi dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu eu huchelgais. Er fy mod yn credu bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, mae'r swm o fuddsoddiad ychwanegol (£134 miliwn) y tu hwnt i'r adnoddau uchod sydd eisoes wedi'u hymrwymo i'w meysydd blaenoriaeth yn sylweddol. Bydd rheoli buddsoddiad ar y lefel hon yn gofyn am weithdrefnau llywodraethu cadarn ac ymgynghori ac ymgysylltu parhaus. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn ailedrych ar ei strategaeth ariannol tymor canolig ac yn sicrhau bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i reoli gwariant ar y lefel hon ac ar sail barhaus.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 28 Medi 2012.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

Yn gywir

**Derwyn Owen**
**Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

**29 Tachwedd 2012**

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Gorffennaf neu fis Awst, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ddinbych

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 ym mis Hydref 2012. Mae'r manylion ar gael ar wefan y Cyngor ar www.sirddinbych.gov.uk Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Blaenoriaethau o ran amcanion gwella allweddol 2011-12 | Blaenoriaethau o ran amcanion gwella allweddol 2012-13 |
|---|---|
| Addasu'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â newidiadau demograffig. | Datblygu'r economi lleol. |
| Lleihau amddifadedd a datblygu economi Sir Ddinbych yn gynaliadwy trwy dargedu adnoddau yn strategol. | Gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion. |
| Moderneiddio'r gwasanaeth addysg i gyflawni lefel uchel o berfformiad ledled y sir. | Gwella ein ffyrdd. |
| Sicrhau rhwydwaith ffyrdd cynaliadwy ac amddiffynfeydd rhag llifogydd. | Amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a sicrhau y gallant fyw mor annibynnol ag y bo modd. |
| Gwella'r ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. | Strydoedd glân a thaclus. |
| | Sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael. |
| | Moderneiddio'r Cyngor i sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid. |

## Hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael ar wefan y Cyngor ar www.sirddinbych.gov.uk.

# Atodiad 5
# Cynigion ar gyfer gwella 2012-13

Yn ystod ein gwaith yn 2012-13 rydym wedi gwneud rhai cynigion newydd ar gyfer gwella. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor amdanynt eisoes ac fe'u nodir isod er gwybodaeth. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor wrth weithredu'r cynigion o dan ein rhaglen waith yn y dyfodol.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| C1 Darparu sail dystiolaeth ehangach o wybodaeth i alluogi'r Cyngor i asesu a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella. |
| C2 Cynnwys mwy o wybodaeth am statws a chanlyniadau prosiectau cydweithredol y Cyngor. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **22 Mai 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau/ Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Teitl:** | **Rôl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn y Broses o Bennu Cyllideb** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r broses pennu cyllideb fwriedig ar gyfer 2014/15 a'r rôl y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ei chwarae.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 I geisio safbwyntiau'r Pwyllgor ar eu rôl yn y broses pennu cyllideb ddiwygiedig.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi sylwadau am y newidiadau arfaethedig.

**4. Manylion am yr adroddiad.**

4.1 Cynigiwyd proses pennu cyllideb ddiwygiedig yn sesiwn Briffio'r Cyngor ym Mawrth. Fe wnaeth hyn leihau nifer yr aelodau oedd â rhan ym mhroses her y gyllideb, ond fe gynigiwyd hefyd bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn darparu trosolwg o'r broses.

4.2 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn arolygu dulliau archwilio, rheoli'r trysorlys a chynhyrchu datganiad o gyfrifon y Cyngor, ac mae hyn yn edrych fel y cam nesaf rhesymegol i'r pwyllgor. Mae hefyd yn osgoi'r angen i sefydlu grŵp newydd a threfnu cyfarfodydd ychwanegol.

4.3 Mae angen i'r pwyllgor chwarae nifer o swyddogaeth o fewn y broses:

- Darparu trosolwg o'r broses a sicrhau ei fod ar y trywydd cywir i ddarparu arbedion
- Cael cip ymlaen llaw ar gynigion cyn gweithdai, cael eglurhad a dealltwriaeth o'r cynigion
- Rhoi cyfeiriad ynglŷn ag unrhyw faterion a godir

- Sicrhau y gweithredir ar adborth o weithdai
- Adolygu'r broses unwaith y pennir y gyllideb

4.4 Mae gan aelodau o'r pwyllgor rôl i'w chwarae hefyd i sicrhau bod eu grwpiau priodol yn cael eu briffio am y cynigion cyn y gweithdai, fel y gellir ystyried materion ymlaen llaw.

4.5 Mae'r atodiad yn dangos yr amlinelliad eang ar gyfer pob gweithdy a byddai'r rhain yn ffurfio'r sail ar gyfer adroddiadau Llywodraethu Corfforaethol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae gweithredu'r Cynllun Corfforaethol yn dibynnu ar nodi cyllid i dalu am y cynlluniau sydd ynddo.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau yn codi o'r cynigion

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?**

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb oherwydd nad yw'n berthnasol. Cynhelir Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gynigion penodol lle bo'n briodol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Trafodwyd y cynnig hwn mewn sesiwn flaenorol o friffio'r Cyngor

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gan y Cyngor broses pennu cyllideb gadarn a bod aelodau'n archwilio'r cynigion yn briodol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Dylunnir y cynigion hyn i leihau'r risg o broblemau'n codi yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 O dan adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i'r Cyngor wneud trefniadau priodol ar gyfer rheoli ei gyllid yn gywir.

**Swyddogion Cyswllt:** Pennaeth Cyllid ac Asedau Ffôn: 01824 706140

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Corporate Governance Committee

- Oversee progress
- Review proposals and request further information
- Feedback from and to groups
- Follow up from workshops
- Contribute to agendas

| **Meeting** | **Date** |
|---|---|
| Corporate Governance | 3 July |
| Council Budget Workshop 1 | 15 July |
| Corporate Governance | 4 Sept |
| Council Budget Workshop 2 | 21 Oct |
| Corporate Governance | 6 Nov |
| Full Council to agree supported savings | 3 Dec |
| Council Budget Workshop 3 | 9 Dec |
| Cabinet to recommend Budget | 14 Jan |
| Council to agree Budget | 4 Feb |
| Council to set Council Tax | 25 Feb |

# July Workshop

- Overview of 3 year financial position and assumptions being used
- Overview of current savings proposals
- Overview of the Modernisation programme
- Discussion on future direction of savings and priorities investment
- Focus on medium term

# October Workshop

- Review new savings proposals
- Update on likely settlement
- Focus on coming year
- Debate any additional requirements from Members (eg Council Tax range)
- Agree position so far

# December Full Council

- Formal report
- Covers progress so far
- Formal agreement of supported savings
- Allows us to ‘park’ agreed items and focus on what’s left

# December Workshop

- Hopefully final version of budget
- Debate and support all remaining major items
- No significant changes after this meeting